# Cronfa Cefnogi Cymunedau Gwynedd

# Gwynedd Community Support Fund

## Canllawiau

### 1. Beth yw'r Gronfa Cefnogi Cymunedau?

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu grantiau i grwpiau cymunedol a gwirfoddol Gwynedd. Prif nod y grantiau yw cefnogi cynlluniau a fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau yng Ngwynedd.

Mae'r Gronfa Cefnogi Cymunedau yn gronfa o arian cyfalaf a refeniw. Disgwylir i'r dyraniadau annog cymunedau i gymryd rôl mwy rhagweithiol yn eu hardaloedd. Y bwriad yw galluogi'r trydydd sector i chwarae rôl gyflawn yng nghymunedau Gwynedd drwy adlewyrchu un neu ragor o'r <u>amcanion</u> canlynol:

i. Annog cymunedau i gymryd rôl mwy rhagweithiol yn eu hardaloedd
ii. Adnabod ac ymateb i anghenion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned
iii. Hybu buddsoddiad a datblygiad yr economi leol
iv. Gwella lleoliadau sy'n bwysig i gymunedau
v. Cynyddu cyfleoedd gwaith, datblygiad sgiliau ymhlith unigolion o fewn cymunedau a hybu cyfle cyfartal i bawb
vi. Cefnogi gwirfoddolwyr a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli
vii. Annog gwarchod a chyfoethogi'r amgylchedd

Mae'r Gronfa'n cynnig grantiau sy'n adlewyrchu amcanion a thargedau Cynllun y Cyngor.

### 2. Pa lefel grant y gellir ei ddyfarnu?

Mae Cronfa Cyfalaf a Chronfa Refeniw ar gael i'w rannu i grwpiau drwy Wynedd. **Croesewir ceisiadau grant unigol am hyd at £10,000.**

Fe all grŵp sydd wedi derbyn grant o'r gronfa yn y gorffennol gyflwyno cais ar gyfer prosiect newydd unwaith bydd holl ofynion monitro'r grant gwreiddiol wedi eu cwblhau.

### 3. Pa fath o brosiectau a fyddai'n bosib i'r Gronfa gefnogi?

Disgwylir i geisiadau fod yn seiliedig ar gynlluniau neu wasanaethau newydd neu ffyrdd newydd o wasanaethu sydd yn cyflawni amcanion pendant ac amlwg.
Ni fyddwn yn ariannu gwaith cynnal a chadw dydd i ddydd.

**Enghreifftiau o brosiectau CYFALAF y gallai'r Gronfa eu cefnogi:**

- Pryniant offer neu welliant i adeilad fydd yn galluogi y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau newydd neu dderbyn cyfrifoldeb am wasanaethau sy'n trosglwyddo o gyrff cyhoeddus.
- Prosiectau sydd yn rhesymoli'r ddarpariaeth o adeiladau cymunedol o fewn cymuned benodol er mwyn creu model mwy cynaliadwy.

- Prosiectau gwella amgylcheddol lleol.

**Enghreifftiau o brosiectau REFENIW y gallai'r Gronfa eu cefnogi:**

Mae modd ymgeisio am gyllid refeniw dros 3 mlynedd ariannol, ond dim ond yn flynyddol bydd modd i ni gadarnhau argaeledd y cyllid.

- **Hyfforddiant -** i bwyllgorau gwirfoddol a grwpiau, e.e. Cymorth Cyntaf, sgiliau pwyllgor, hylendid bwyd, trefnu digwyddiadau, iechyd a diogelwch, codi arian, cysylltu â'r wasg ayyb.

- **Swyddi Newydd - llawn neu ran amser sy'n recriwtio, cefnogi a datblygu sgiliau gwirfoddolwyr.** (Os ydych yn ymgeisio am gyfraniad tuag at gost swydd, bydd angen cyflwyno cynllun busnes i ddangos sut bydd y swydd neu'r gweithgaredd yn cael ei gynnal y tu hwnt i gyfnod y grant).

- **Digwyddiadau - i ddigwyddiadau newydd neu i wyliau sydd wedi sefydlu yn barod ond heb dderbyn grant CCC o'r blaen er mwyn gwella cynaladwyedd ariannol y digwyddiad.** (Os ydych yn ymgeisio am gyfraniad tuag at ddigwyddiad, bydd angen cyflwyno cynllun busnes i ddangos sut bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal tu hwnt i gyfnod y grant).

- **Datblygu gweithgareddau a gwasanaethau newydd sy'n cael eu harwain gan y trydydd sector** e.e. gweithgareddau addysgol; clybiau cinio; sefydlu caffi/siop gymunedol; darparu cyfleusterau i ymwelwyr; cychwyn menter gymunedol.

- **Marchnata adnoddau a gweithgareddau cymunedol** e.e. darparu deunydd marchnata/ gwybodaeth, byrddau dehongli neu bamffledi treftadaeth.

- **Cynllun Busnes** - i gomisiynu cynllun busnes ar gyfer menter/gweithgaredd newydd sydd am wella hyfywdra ariannol grŵp, neu i ddiweddaru cynllun busnes ar gyfer menter sy'n wynebu trafferthion ariannol.

- **Asesiad dichonoldeb/ gwerthusiad opsiynau** - i dalu am ffioedd proffesiynol i ymchwilio i hyfywdra ac ymarferoldeb menter/gweithgaredd newydd.

- **Asesiad ynni -** i dalu am ffioedd proffesiynol i asesu perfformiad ynni adeilad cymunedol a chynhyrchu adroddiad ynglŷn â'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn gwella perfformiad effeithiolrwydd ynni.

- **Ffioedd proffesiynol -** pan fydd y ffioedd yn rhan angenrheidiol o brosiect adfywio a phecyn ariannu wedi ei gynllunio.

**Sylwer mai enghreifftiau yn unig yw'r rhestrau uchod**

## 4. Pwy all ymgeisio am gefnogaeth?

Gall grwpiau cymunedol gyda phrosiect sy'n darparu ar gyfer trigolion Gwynedd geisio am gefnogaeth drwy'r Gronfa Cefnogi Cymunedau. Mae'n rhaid cyrraedd y meini prawf canlynol os am geisio am arian o'r gronfa:

- Rhaid bod yn fudiad cymunedol neu wirfoddol sydd wedi ei leoli neu yn gweithredu o fewn Gwynedd;
- Ni all eich mudiad ddosbarthu elw;
- Rhaid i'ch mudiad fod a statws cyfreithiol a chyfansoddiadol;
- Rhaid i'ch mudiad fod a strwythur rheoli clir;
- Rhaid i'ch mudiad gael sustem rheolaeth ariannol glir;
- Bod ag egwyddorion gweithredol sy'n cyd-fynd a deddfwriaeth ar gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb i weithwyr a gwirfoddolwyr;
- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb yn gysylltiedig â mynediad, iaith, diwylliant, rhyw a materion ethnig;
- Yn meddu ar amcanion a nodau sydd yn cyd-fynd a gweithgareddau ariannir drwy'r grant yma;
- Dangos bod grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd/cynllun;
- Rhaid dangos bod egwyddorion gwerth am arian wedi eu dilyn wrth ddatblygu, gweithredu a rhedeg y cynllun, megis eich bod yn dilyn y Cyfarwyddiadau Gwahodd Prisiau (gellir cael copïau ar wefan Cist Gwynedd) ar gyfer y gwaith/gwasanaeth, yn enwedig yn y cynlluniau cyfalaf;
- Bod egwyddorion gweithredol yn eu lle sy'n cyd-fynd a deddfwriaeth amddiffyn plant ac oedolion bregus.

**Os mai hyrwyddo crefydd yw prif nod eich grŵp, bydd angen profi bod yr hyn mae'r gronfa yn cyfrannu tuag ato yn agored i'r gymuned gyfan.**

**PWY GAIFF DDIM YMGEISIO:**
Er y gall Cynghorau Tref/Cymuned gyfrannu'n ariannol tuag at gynllun, ni allant gyflwyno cais yn uniongyrchol oherwydd eu statws fel awdurdodau statudol lleol. Bydd yn ofynnol ar bob cynllun a gymeradwyir i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r Gronfa Cefnogi Cymunedau. Mewn rhai amgylchiadau gellir gosod amodau arbennig ar gynllun.

## 5. Sut i ymgeisio am grant?

Gellir gwneud cais ar gyfer y Gronfa Cefnogi Cymunedau drwy lenwi'r ffurflen gais bwrpasol. Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau yn ofalus ac yn sicrhau bod eich cynllun yn ymateb i'r canllawiau a'r meini prawf.

Mae swyddogion Cyngor Gwynedd ar gael i gynnig arweiniad i chi. **Awgrymir yn gryf y dylid cysylltu gyda Swyddog i drafod y cynllun cyn ymgeisio.** Mae manylion y Swyddogion Cefnogi Cymunedau a'r ardaloedd hyn isod:

**Dalgylch Bro Peris, Bro Lleu/Nantlle, Bro Ffestiniog**
markgahan@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 07901 893006

**Dalgylch Caernarfon/Bangor a Bro Ogwen**
dafyddeinionjones@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 01248 605276

**Dalgylch Pwllheli a Penllŷn**
alyslloydjones@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 01758 704120

**Bro Dysynni, Ardudwy a Dolgellau**
annalewis@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 01341 424504

**Porthmadog a Penrhyndeudraeth**
lindseyellis@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 07919024025

**Bala Penllyn, Rhydymain a Dinas Mawddwy**
HuwAnturEdwards@gwynedd.llyw.cymru Rhif ffon: 07929512741.

**Neu am unrhyw wybodaeth arall ffoniwch Swyddog Cist Gwynedd** 01286 679870
**Cistgwynedd@gwynedd.llyw.cymru**.

## 6. Pryd y dylid gwneud cais?

**Dyddiad Cau: Mehefin 14eg, 2024**

Dylid sicrhau bod y ffurflen gais wedi ei chwblhau a bod **yr holl** ddogfennau cefnogol a thechnegol angenrheidiol wedi eu derbyn erbyn y dyddiad cau perthnasol.

Byddwn yn anelu i asesu a chymeradwyo ceisiadau o fewn 6 wythnos i'r dyddiad cau.

**Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau am lai na £1,000 ar unrhyw adeg, a byddwn yn anelu i brosesu ceisiadau o'r fath o fewn 4 wythnos gwaith, yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael.**